

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio materion cyfoes ym myd chwaraeon, gan gynnwys maeth, rhywedd, adferiad seicolegol ac arbenigaeth gynnar, a bydd y myfyrwyr yn gallu dewis astudio o blith amrywiaeth bellach o faterion yn ystod eu Hasesiad ar Ddiwedd y Modiwl.

Yn y modiwl diddorol hwn bydd y myfyrwyr yn archwilio'r ymchwil sy'n sail i amrywiaeth o faterion cyfoes o ran chwaraeon ac ymarfer corff. Drwy ddadansoddi'n feirniadol y rhyngweithio rhwng ffynonellau academiaidd a'r cyfryngau, bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i gwestiynau diddorol mewn pynciau megis maeth, rhywedd, adfer ac arbenigaeth gynnar. Byddant hefyd yn ymchwilio'n fanwl i un mater cyfoes y byddant yn ei ddewis o blith amrywiaeth o opsiynau: profion genetig, technoleg gwisgadwy, ethnigrwydd, maeth (diodydd chwaraeon), poen, cwsg, hyfforddiant ysbeidiau dwys (HIT), homoffobia, cyfergyd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd mewn chwaraeon, ffitrwydd neu faes sy'n gysylltiedig ag ymarfer corff, o leiaf, ynghyd ag ymwbyddiaeth o ymchwil lefel uwch, yn ddelfrydol wedi'i dangos drwy astudiaeth ôl-raddedig.
- Y gallu ddangos dealltwriaeth feirniadol gref o dystiolaeth academiaidd ac adroddiadau yn y cyfryngau am faterion cyfoes ym myd chwaraeon.
- Y gallu i ddangos yr ystwythder academiaidd i gefnogi myfyrwyr i ymateb i gwestiynau prosiect yr Asesiad ar Ddiwedd y Modiwl mewn amrywiaeth o feysydd pwnc (profion genetig, technoleg gwisgadwy, ethnigrwydd, delwedd o'r corff, maeth (diodydd chwaraeon), poen, cwsg, hyfforddiant ysbeidiau dwys (HIT), homoffobia, cyfergyd), gan arbenigo'n benodol mewn o leiaf ddau faes pwnc.
- Profiad o helpu eraill i ddysgu ar lefel gradd (e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu oruchwylio)
- Profiad o oruchwylio adolygiadau o lenyddiaeth neu draethodau hir myfyrwyr blwyddyn olaf
- Parodrwydd i ymgysylltu â thechnolegau ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gwybodaeth ynghylch rhai o gwestiynau prosiect yr Asesiad ar Ddiwedd y Modiwl (y meysydd pwnc a restrir uchod).
- arbenigedd pwnc mewn o leiaf un o'r meysydd pwnc allweddol – maeth, rhywedd, adfer ac arbenigaeth gynnar.

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.